# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

## RHAN 2

CWRICWLWM MEWN YSGOLION A GYNHELIR, YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR AC ADDYSG FEITHRIN A GYLLIDIR OND NAS CYNHELIR

## PENNOD 3

GWEITHREDU CWRICWLWM

*Ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir*

PROSPECTIVE

### 32 Pŵer i ddatgymhwyso dyletswydd i weithredu dewis disgybl: atodol

(1) Rhaid i bennaeth sy'n gwneud penderfyniad o dan adran 31 roi'r wybodaeth a ddisgrifir yn is-adran (2)—

(a) i'r disgybl y mae'r penderfyniad yn ymwneud ag ef, a

(b) i riant y disgybl.

(2) Yr wybodaeth yw—

(a) y ffaith bod y penderfyniad wedi ei wneud,

(b) effaith y penderfyniad,

(c) rhesymau'r pennaeth dros wneud y penderfyniad,

(d) gwybodaeth am yr addysgu a dysgu a sicrheir i'r disgybl yn lle'r addysgu a dysgu y mae'r penderfyniad wedi ei wneud mewn cysylltiad ag ef, ac

(e) gwybodaeth am yr hawl i ofyn am adolygiad, neu wneud apêl, o dan adran 33.

**Statws** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 13/06/2022. Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 32 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 17 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(3) Rhaid rhoi'r wybodaeth yn ysgrifenedig.

(4) Nid yw'r ddyletswydd yn is-adran (1)(a) yn gymwys os yw'r pennaeth yn ystyried nad oes gan y disgybl o dan sylw y galluedd i ddeall—

(a) yr wybodaeth a roddid, neu

(b) yr hyn y mae'n ei olygu i arfer yr hawliau a roddir gan adran 33.

(5) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach mewn cysylltiad â phenderfyniadau o dan adran 31.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 32 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 13/06/2022. Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 32 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 17 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.